O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2011 Rhif 2734 (Cy. 296)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A494 (Golwg Hir, Gwynedd) (Cyfyngiadau a Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2011

Wedi'i wneud	*14 Tachwedd 2011*
Yn dod i rym	*26 Tachwedd 2011*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Dolgellau - Man i'r De o Birkenhead (A494) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylai traffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd gael ei gyfyngu neu ei wahardd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arno.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 26 Tachwedd 2011 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A494 (Golwg Hir, Gwynedd) (Cyfyngiadau a Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2011.

2.—(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" *("exempted vehicle")* yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" *("works period")* yw'r cyfnod sy'n dechrau am 08:00 o'r gloch ar 26 Tachwedd 2011 ac sy'n dod i ben pan fydd yr arwyddion traffig dros dro wedi eu tynnu oddi yno'n barhaol;

ystyr "y darn o'r gefnffordd" *("the length of the trunk road")* yw'r darn hwnnw o gefnffordd yr A494 yn y Golwg Hir, ger Dolgellau yn Sir Gwynedd sy'n ymestyn o bwynt 1236 metr i'r de-orllewin o bwynt canol ei chyffordd â'r ffordd ddi-ddosbarth sy'n arwain at Blas Dolserau hyd at bwynt 636 metr i'r de-orllewin o'r ffordd ddi-ddosbarth a enwyd.